

# Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Gaerfyrddin

## 2015 - 2020

Fersiwn: Mehefin 2015

Cynhyrchwyd gan Partneriaeth Cyrchfan Sir Gaerfyrddin



# Cynnwys

1. Rhagarweiniad	1
2. Y Cyd-destun a'r Cefndir	9
3. Heriau, Cyfleoedd a Gwelliannau	17
4. Gweledigaeth ac Uchelgais	23
5. Blaenoriaethau	26
6. Partneriaeth ar gyfer Twf	30
7. Rheoli Perfformiad	35
8. Dolenni Cyswllt Grŵp Llywio Partneriaeth Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin	36
9. Atodiadau	37



© Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

# 1 Rhagarweiniad

## 1.1 Beth yw Rheoli Cyrchfannau?

Mae twristiaeth wedi'i diffinio fel a ganlyn: 'symudiad pobl dros dro i gyrchfannau y tu allan i'w lleoedd gwaith a'u preswylfeydd arferol, y gweithgareddau y maent yn eu gwneud tra byddant yn aros yn y cyrchfannau hynny, a'r cyfleusterau sydd wedi'u creu i ddarparu ar gyfer eu hanghenion.' Mae twristiaeth yn cynnwys ymwelwyr sy'n aros dros nos yn ogystal ag ymwelwyr undydd. Proses yw Rheoli Cyrchfannau sy'n ceisio cydgyssylltu holl elfennau cyrchfan

sy'n cyfrannu at brofiad ymwelwyr, gan roi ystyriaeth i anghenion ymwelwyr, busnesau lleol, trigolion a'r amgylchedd. Mae Rheoli Cyrchfannau hefyd yn ffordd ddibynadwy o greu cymaint â phosibl o fuddion i'r cyrchfan yn sgil twristiaeth, tra'n ceisio sicrhau profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr.

Mae'r dull cydgyssylltiedig hwn yn berthnasol iawn mewn sir mor fawr â Sir Gaerfyrddin lle ceir aneddiadau amrywiol iawn (gan

gynnwys trefi Prifysgol a chanolfannau siopa rhanbarthol; cymunedau gwledig, llai o faint, llecynnau poblogaidd ar yr arfordir a Pharc Cenedlaethol), ynghyd â rhanddeiliaid amrywiol (gan gynnwys darparwyr llety, siopau, tafarnau, bwytai, darparwyr trafndiaeth, adeiladau crefyddol ac atyniadau i ymwelwyr). Bydd angen i bawb gydweithio i wireddu nodau a blaenoriaethau cyffredin, gwneud cynnydd mesuradwy a chyflawni twf cynaliadwy mewn twristiaeth.



## 1.2 Pam mae angen Cynllun Rheoli Cyrchfannau?

Diben y Cynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC) i Sir Gaerfyrddin yw egluro'r hyn y mae'n bwysig ei gael yn iawn ar gyfer y dyfodol, llunio polisiau a blaenoriaethau, cyfeirio adnoddau a ffurfio'r sail i bobl, busnesau a sefydliadau gydweithio i gyflawni nodau cyffredin. Mae'r CRhC yn seiliedig ar ymgynghori agos â rhanddeiliaid allweddol ac mae'n cynrychioli barn gyffredinol

ynghylch y ffordd ymlaen sydd fwyaf priodol ac effeithiol – i bob pwrpas, un pwynt cyfeirio ydyw ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Mae'r CRhC yn ceisio sicrhau bod dull cydgysylltiedig o ran gwella ansawdd profiadau ymwelwyr yn gyson a chynyddu nifer yr ymwelwyr (ymwelwyr undydd ac ymwelwyr sy'n aros dros nos) a faint y maent yn ei wario yn Sir

Gaerfyrddin, fel rhan o strategaeth adfywio ehangach ar gyfer y Sir. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r uchelgeisiau a'r polisiau a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn ei strategaeth twristiaeth ar gyfer 2013-2020, lle tynnir sylw at y ffaith bod lleoedd a phobl yn ffactorau allweddol o ran llwyddiant cyrchfan.

Mae'r CRhC yn cynnwys nifer o elfennau cydgysylltiol:

- Gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol sy'n denu, symblu a chyffroi'r rheiny sy'n ymwneud â datblygu a chynyddu twristiaeth.
- Asesiad beirniadol o'r profiad cyfan sydd ar gael i ymwelwyr, a ddangosir fel arfer ar ffurf dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau.
- Ffocws ar uchelgeisiau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a datblygu marchnadoedd newydd, ac annog pobl i ymweld â'r Sir yn fynych drwy ddatblygu cynnyrch perthnasol.
- Cynllun Gweithredu cysylltiedig ynghylch Cyrchfannau sy'n amlinellu rhaglen a roddir ar waith fesul cam sy'n cynnwys y prosiectau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i oresgyn y gwendidau a'r bygythiadau, tra'n manteisio ar y cryfderau a'r cyfleoedd i sicrhau twf cynaliadwy mewn twristiaeth.
- Disgrifiad clir o'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu allweddol.
- Strwythur a gytunwyd ar gyfer cyflawni yn seiliedig ar bartneriaeth weithredol rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.



Proses yw rheoli cyrchfannau sy'n ceisio cydgysylltu holl elfennau cyrchfan sy'n cyfrannu at brofiad ymwelwyr, gan roi ystyriaeth i anghenion ymwelwyr, trigolion lleol, busnesau a'r amgylchedd. Mae cynllun rheoli cyrchfannau yn

ceisio disgrifio'r hyn y mae angen iddo ddigwydd dros gyfnod penodol o amser er mwyn gwireddu'r weledigaeth ac yn nodi'r rolau a gytunwyd ar gyfer gwahanol randdeiliaid a'r camau gweithredu y byddant yn

ymgymryd â nhw. Bydd hyn yn helpu wrth osod targedau realistig i sicrhau effaith economaidd, gan eu blaenoriaethu fel y gellir defnyddio adnoddau i gael yr effaith orau.



### 1.3 Dull Partneriaeth

Mae'r cynnyrch twristiaeth yn gyfuniad o wahanol brofiadau ymwelwyr, gan gynnwys 'lleoedd i aros', 'lleoedd i ymweld â nhw', 'pethau i'w gwneud', ac efallai'n bwysicaf oll, 'y bobl rydych yn cwrdd â nhw'. Nid oes un sefydliad neu fusnes yn rheoli holl elfennau profiad ymwelwyr mewn unrhyw gyrchfan penodol. Mae'r CRhC hwn, felly, yn ceisio disgrifio'r hyn y mae angen iddo ddigwydd dros gyfnod penodol er mwyn gwireddu'r weledigaeth ac yn nodi'r rolau a gytunwyd ar gyfer gwahanol randdeiliaid ym maes twristiaeth a'r camau gweithredu y byddant yn gyfrifol

am ymgymryd â nhw, ac yn amlinellu'r dull a ffeirir o ran y trefniadau ar gyfer ei gyflawni yn y dyfodol.

Mae gan y sector preifat rôl sylfaenol o ran cyflawni elfennau allweddol profiad ymwelwyr ond mae polisïau a swyddogaethau nifer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn cael dylanwad cryf ar y ffordd y mae twristiaeth yn cael ei datblygu, ei rheoli a'i hyrwyddo. Mae rheoli llecynnau cyhoeddus (tirwedd, llwybrau troed, ffyrdd, bysiau, canol trefi ac ati) yn rhan hanfodol o brofiad ymwelwyr ac mae angen meddwl

amdani fel swyddogaeth economaidd ynghyd â rhan o'r gwasanaeth i breswylwyr. Rôl hanfodol arall y sector cyhoeddus yw cefnogi busnesau twristiaeth a darparu fframwaith effeithiol y gall mentrau preifat sicrhau twf cynaliadwy a llwyddiant oddi mewn iddo. Mae'r CRhC hwn yn ddogfen allweddol i ddod â phobl, busnesau a sefydliadau at ei gilydd, er mwyn canolbwyntio ar yr hyn y mae'n bwysig ei gael yn iawn ar gyfer y dyfodol, meithrin ymddiriedaeth rhwng partneriaid parod a sicrhau ymrwymiad a chyfrifoldeb.



## Gweledigaeth Partneriaeth Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin

Mae angen gweledigaeth glir i ddenu, symbylu a chyffroi'r rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â datblygu a chefnogi twristiaeth yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r weledigaeth yn helpu i feithrin undod o ran diben ac i

hybu dealltwriaeth gyffredin o nod cyffredinol y Cynllun. Mae'n gweithredu fel un pwynt cyfeirio ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau hwn yn ceisio sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn parhau i ffynnu fel

cyrchfan llwyddiannus i ymwelwyr yn y blynyddoedd sydd i ddod a'i bod yn parhau i gael y budd mwyaf o'r economi ymwelwyr. Y canlynol yw'r weledigaeth:

Datblygu economi ymwelwyr ffyniannus yn Sir Gaerfyrddin yn seiliedig ar ei chryfderau a'i chymeriad unigryw, sy'n cynhyrchu mwy o wariant ac incwm lleol, yn gwella ei delwedd a'i henw da ac yn gwella ansawdd bywyd i gymunedau lleol.

Mae'r weledigaeth hon yn ddatganiad o fwriad ar y lefel uchaf a bydd ei gwireddu yn dibynnu ar amryw o ffactorau, gan gynnwys y canlynol:

- Rhoi rhesymau clir i ymweld â'r sir a darparu profiadau cymhellol, unigryw a chofiadwy o ansawdd uchel i ymwelwyr.
- Creu safle clir i'r Sir yng nghyd-destun y wlad.
- Blaenoriaethu buddsoddiad i gyflawni'r addewid ac i wella ansawdd cyffredinol profiad ymwelwyr.
- Harneisio cryfderau cyfunol yr holl fusnesau a sefydliadau y mae ganddynt rôl o ran cefnogi'r economi ymwelwyr.
- Diffinio addewid / cynnig unigryw Sir Gaerfyrddin o ran twristiaeth a denu ymwelwyr newydd, a'r rheiny sy'n ymwelwyr eisoes, i'r sir drwy farchnata blaengar a chost-effeithiol.
- Manteisio i'r eithaf ar ddynodiad a brand y Parc Cenedlaethol, a chydweithio â Phartneriaeth Cyrchfannau Cynaliadwy Bannau Brycheiniog a'i rhaglen waith, mewn modd sy'n fanteisiol i'r ddwy ochr.
- Gwella mynediad i Sir Gaerfyrddin, ac o fewn y Sir, er mwyn annog gwell llif ymwelwyr, arosiadau hwy a mwy o wariant.

- Sicrhau'r safonau uchaf o ran gwasanaeth cwsmeriaid.
- Sicrhau cymaint â phosibl o wariant gan ymwelwyr a bod cymaint â phosibl o incwm yn cael ei gadw yn yr economi leol.
- Gwella bodlonrwydd cwsmeriaid er mwyn annog ymweliadau hwy a mynych, mwy o wariant a mwy o argymelliadau cadarnhaol.
- Meithrin diwylliant o welliant parhaus, gwerth am arian, dysgu am arferion gorau a chynaliadwyedd.
- Nodi mesurau llwyddiant a monitro perfformiad.



## Byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni'r weledigaeth pan wireddir y canlynol:

Mae'n dra hysbys bod Sir Gaerfyrddin yn un o'r lleoedd mwyaf diddorol a bywiog i ymweld â nhw yng Nghymru. Derbynnir bod y sir yn gyrchfan sy'n cynnig profiadau o ansawdd i ymwelwyr gan gynnwys gerddi byd-enwog, atyniadau i deuluoedd a manau o ddi-ddordeb diwylliannol amrywiol. Yn gynyddol, mae pobl yn ymweld â'r sir drwy gydol y flwyddyn i fwynhau'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gwyliau, y trefi marchnad croesawus a bywiog, y canolfannau adwerthu modern, y traethau glân a chefn gwlad godidog sydd yno ac sy'n denu cerddwyr ac ymwelwyr mwy egniol i amrywiaeth o fannau, gan gynnwys llwybr yr arfordir a'r Parc Cenedlaethol. Mae Sir Gaerfyrddin yn falch o fod yn Gymreig ac mae'r iaith yn amlwg iawn - sy'n ysbrydoliaeth i bawb ac yn eu hatgoffa o'r gwerthoedd a'r traddodiadau y mae'r ardal yn sefyll drostynt ac yn parhau i fyw wrthynt.



## 2 Y Cyd-destun a'r Cefndir

### 2.1 Y Cyd-destun Polisi o ran Rheoli Twristiaeth a Chyrchfannau

Ar lefel genedlaethol, mae twristiaeth wedi'i chydabod gan Lywodraeth Cymru yn un o naw sector allweddol yn yr economi. Mae ei strategaeth twristiaeth ar gyfer 2013 - 2020, *'Partneriaeth ar gyfer Twf'*, yn nodi bod Rheoli Cyrchfannau yn hanfodol wrth helpu i wella apêl cyrchfannau twristiaeth i ymwelwyr ledled Cymru. Mae'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen Croeso Cymru, *'Developing the Visitor Economy: A Charter for Wales 2009'*, yn darparu cylch gwaith clir ar gyfer trefniadau Rheoli Cyrchfannau yng Nghymru, ac mae'r ddogfen yn nodi rôl allweddol i awdurdodau lleol wrth gyfrannu at y gwaith o baratoi cynlluniau cyrchfannau lleol a sefydlu partneriaethau cyrchfannau lleol.

Ar lefel ranbarthol gofynnodd Croeso Cymru i Bartneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru fod yn gyfrifol am gyflawni'r strategaeth twristiaeth genedlaethol yn y rhanbarth. Bu Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r diwydiant twristiaeth, i ddatblygu twristiaeth mewn modd cynaliadwy a chomisiynodd strategaeth twristiaeth sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r strategaeth twristiaeth genedlaethol. Er bod Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru wedi darford ym Medi 2014, mae Croeso Cymru yn parhau i gynnal ei ymrwymiad parhaus i Reoli Cyrchfannau a hynny trwy'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol.

Mae gwaith Dinas-ranbarth Bae Abertawe (gweler atodiad 1), sy'n hybu partneriaeth mewn perthynas â datblygu economaidd, yn berthnasol hefyd, a bydd ganddo oblygiadau clir i'r diwydiant twristiaeth yn yr ardal ehangach.

Ar lefel leol, mae'r *'Strategaeth Gymunedol Integredig i Sir Gaerfyrddin (2011-2016)'* yn ddogfen bolisi allweddol (gweler atodiad 2) sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ac yn nodi cyfres o ganlyniadau blaenoriaethol ar y lefel uchaf ar gyfer Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Ffyniant Economaidd sy'n cwmpasu nifer o'r camau gweithredu a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau.

## 2.2 Pwysigrwydd Twristiaeth

Mae twristiaeth yn un o gydrannau allweddol economi Sir Gaerfyrddin ac mae'n un o'r prif ffynonellau cyflogaeth a refeiwi, gan gefnogi dros 5,547 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a chynhyrchu refeiwi gwerth £326 miliwn i economi'r Sir bob

blwyddyn (tua 16% o gyfanswm Cymru gyfan). Treuliyd dros 5.4 miliwn o ddyddiau twristiaid yn y Sir gan 2.9 miliwn o dwristiaid oedd yn aros yn un o'r 573 o sefydliadau gwahanol sy'n cynnig 19,396 o leoedd mewn gwelyau. Mae ymchwil a wnaed yn 2013 yn dangos bod 92% o ymwelwyr undydd wedi dweud y

byddent yn bendant yn dychwelyd i'r Sir a bod 75% o ymwelwyr o'r DU oedd yn aros dros nos wedi dweud y byddent yn dychwelyd i aros dros nos eto.

*Ystadegau Adroddiad Tueddiadau STEAM Cyngor Sir Caerfyrddin 2002-2013*



### Mae twristiaeth hefyd yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi gwasanaethau rhydwantol a seilwaith sydd o fudd i bobl leol, e.e. cysylltiadau, trafniadaeth, yr ystod o siopau a gwasanaethau, cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol a darpariaeth amwynderau hanfodol.
- Helpu i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o'r Sir ymhlith cynulleidfaoedd allanol, sy'n gallu denu buddsoddiad, datblygu busnesau newydd a chreu teimlad o hyder yn y dyfodol.

Os caiff ei chynllunio a'i rheoli mewn ffordd gynaliadwy, gall twristiaeth sbarduno buddion ehangach ar draws y Sir. Bydd gwariant gan ymwelwyr ar lety, bwyd a diod, gweithgareddau hamdden a siopa yn cefnogi busnesau twristiaeth a busnesau

nad ydynt yn ymwneud â thwristiaeth drwy gadwyni cyflenwi lleol, sy'n we gymhleth o rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol sy'n creu buddion i fusnesau bach cynhenid, sy'n hanfod i gymunedau bywiog. Mae twristiaeth yn cyffwrdd

busnesau na all sectorau economaidd eraill eu cyrraedd. Bydd diwydiant twristiaeth ac economi ymwelwyr gref yn cefnogi economi fwy ffyniannus yn gyffredinol ac yn helpu i gynnal swyddi presennol a chreu swyddi newydd.

*Ffynhonnell : Ystadegau STEAM Cyngor Sir Caerfyrddin*

		Llety sy'n codi tâl		Ffrindiau a Pherthnasau	Yr Holl Ymwelwyr sy'n Aros	Ymwelwyr undydd	Pob math o ymwelwyr
		Llety â gwasanaeth	Llety heb wasanaeth				
		2013	2013	2013	2013	2013	2013
<b>Diwrnodau Ymwelwyr</b>	M	0.4237962	2.2397437	0.677714	3.3412539	2.0598932	5.4011471
<b>Nifer yr Ymwelwyr</b>	M	0.2246952	0.3578562	0.2846692	0.8672206	2.0598932	2.9271138
<b>Gwariant Uniongyrchol</b>	£M						244.51
<b>Effaith economaidd</b>	£M	53.94	172.50	38.09	264.53	61.81	326.34
<b>Cyflogir yn Uniongyrchol</b>	CALi	1,129	2,302	408	3,840	654	4,494
<b>Cyfanswm a gyflogir</b>	CALi						5,547



## 2.3 Deall yr Economi Ymwelwyr

Ym maes rheoli cyrchfannau, daeth yn fwy cyffredin cyfeirio at yr economi ymwelwyr yn hytrach na'r economi twristiaeth. Mae'r economi ymwelwyr yn rhoi ystyriaeth i weithgarwch economaidd ehangach ac mae'n cynnwys y cyfraniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r economi sy'n deillio o wariant gan ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr undydd. Mae'r ffocws ehangach hwn yn golygu bod angen ystyried pob elfen sy'n cyfrannu at brofiad ymarferol a chynaliadwy o gyrchfan, gan gynnwys y seilwaith trafndiaeth, darpariaeth TG/band eang, rheoli lleoedd, gofal cwsmeriaid, rheoli'r gadwyn gyflenwi, y celfyddydau a diwylliant, cynllunio defnydd tir a manwerthu. Mae'r ystod eang o fuddiannau yn creu heriau a chyfleoedd y mae angen rhoi sylw manwl iddynt gan glymblaid o randdeiliaid sy'n deall

pwysigrwydd yr economi ymwelwyr ac sydd wedi ymrwymo i wella safle cystadleuol a pherfformiad y cyrchfan.

Mae twristiaeth yn gynnwys sy'n seiliedig ar brofiad – ni allwch fynd â'r cynnyrch adref gyda chi ond byddwch yn mynd â'r profiad ac, yn aml, elfen leiaf lwyddiannus y profiad hwnnw fydd yn penderfynu a ystyrir yr ymweliad yn llwyddiant neu'n fethiant a pha un a fydd pobl yn dychwelyd neu'n argymhell y cyrchfan i eraill. Y gweinydd sarrug, y cynorthwydd anfoesgar yn y maes parcio, yr ystafell ymolchi frwnt, y pryd oer – mae nifer o ffyrdd y gall ymwelwyr gael eu siomi ym mhob un cam o'u taith.

**Cynnyrch twristiaeth yw'r hyn rydych yn ei brynu – profiad twristiaeth yw'r hyn rydych yn ei gofio.**

Gall fod goblygiadau i fusnesau eraill yn sgil profiad gwael neu weddol mewn un elfen o'r ymweliad. Felly, mae 'cyd-ddibyniaeth' wrth ddarparu profiadau ymwelwyr. Nid yn unig y mae'n rhaid i fusnesau fodloni'r rheiny sy'n ymweld â'u cynnyrch neu'u gwasanaeth nhw ond maent yn dibynnu ar yr holl fusnesau eraill i wneud hynny hefyd. Gallai un cyswllt gwan leihau buddion twristiaeth i fusnesau unigol ac i'r cyrchfan yn gyffredinol. Un o nodau hanfodol y Cynllun Rheoli Cyrchfannau hwn yw sicrhau bod yr economi ymwelwyr yn cael yr effaith fwyaf posibl ar Sir Gaerfyrddin ac mae hyn yn gofyn bod holl elfennau profiad ymwelwyr yn cael eu darparu i'r safon uchaf posibl, bob tro ac ym mhob lle.



## 2.4 Tueddiadau yn y Galw am Dwristiaeth

Mae'r farchnad dwristiaeth yn agored i nifer o ddylanwadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a thechnolegol. Mewn amgylchedd sydd mor gyfnewidiol ac anwadal, nid yw'r dyfodol yn sicr o bell ffordd, ond mae nifer o ffactorau tymor hwy sy'n dylanwadu ar y galw am dwristiaeth yn amlwg, ac maent yn cynnig cyfleoedd ar gyfer twf i Sir Gaerfyrddin:


- **Teithio am brofiad:** mae pobl yn chwilio am brofiadau newydd a gwahanol, gweithgareddau, lles, hunanwellhad, cynnyrch â thema, llety unigryw, cyfleoedd hamdden ychwanegol, digwyddiadau ac achlysuron.
- **Natur, Dilysrwydd, Atgofion:** mae pobl yn chwilio am bleserau syml, lleoedd chwarae naturiol, meysydd gwersylla/carafanio, natur a moethusrwydd (gwârsylla), gweithgareddau awyr agored, profiadau dysgu/natur/bywyd gwyllt, ailddarganfod hen gynefin, nawws am le, digwyddiadau lleol, bwyd, siopa a hanes lleol.
- **Pris a Gwerth:** mae pobl yn chwilio am gynigion a bargeinion, yn chwilio am fargeinion sy'n cynnig y pris gorau a chymhellion, prisiau hollgynhwysol/sefydlog a chyfryngau newydd, fel 'Groupon', sy'n cynnig bargeinion gostyngol (fforddiadwy).
- **Hwb Economaidd:** gwelwyd cynnydd amlwg yn y farchnad gwyliau gartref yn y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi'i yrru'n rhannol gan ddylanwadau economaidd yn sgil y dirwasgiad. Mae dau grŵp o bobl sy'n cael gwyliau gartref – 'Cyfnewidwyr' sy'n cyfnewid gwyliau dramor am wyliau gartref am resymau ariannol, ac 'Ychwanegwyr' sy'n cael gwyliau ychwanegol yn y DU er mwyn profi rhywle newydd ac sy'n llai sensitif i gyfyngiadau ariannol. Mae'n debygol wrth i'r economi wella y bydd 'Cyfnewidwyr' yn ailddarganfod eu hawydd i deithio y tu allan i'r DU a gallai hyn gael effaith sy'n gwanhau'r farchnad gwyliau gartref.
- **Teithwyr Cymdeithasol a Phersonol:** mae pobl eisiau argymell eu profiadau gwyliau a'u rhannu â rhwydweithiau cymdeithasol agos, ac yn ceisio rhwydweithiau symudol newydd (cyd-deithwyr), teithio gyda ffrindiau a grwpiau teuluol, aduniadau, lleoedd sydd â phersonoliaeth, llety annibynnol yn hytrach na llety sy'n rhan o frand, elfennau personol a chael golwg ar bethau o'r tu mewn.
- **Teithwyr Symudol:** mae pobl eisiau penderfynu ble i fynd a beth i'w wneud tra byddant yn teithio ac yn y cyrchfan, llai o gynllunio ymlaen llaw, defnyddio'r rhyngwyd i gael cynigion yn y cyrchfan, gwybodaeth ac awgrymiadau.



- **Grwpiau Teithwyr sy'n Newid:** mwy o deithwyr hŷn yn gyson â phoblogaeth sy'n heneiddio yn y DU, grwpiau teulu estynedig, plant â'u mamau-cu/tadau-cu, pobl hoyw a lesbiaidd, anghenion ethnig a diwylliannol, teithio gydag anifeiliaid anwes.
- **Teithwyr Corfforaethol:** mae cyllidebau corfforaethol tynnach yn arwain at israddio, mae technoleg yn cymryd lle teithio, ond mae digwyddiadau mawr yn bwysig o hyd.
- **Gwyliau Byr:** mae pobl yn fwyfwy prin o amser, sydd wedi hybu symudiad tuag at wyliau byr yn amlach. Dylai'r cyrchfannau hynny sydd o fewn pellter teithio o ddwy awr i ganolfannau poblogaeth mawr elwa o'r duedd hon.
- **Fforwyr Annibynnol:** un o farchnadoedd targed Croeso Cymru. Mae fforwyr annibynnol yn chwilio am

leoedd sy'n caniatáu iddynt fod yn hwy eu hunain, sy'n eu cyfoethogi ac yn eu herio. Gwerthfawrogant onestrwydd a gwelant werth lleoedd a phrofiadau dilys. Maent yn troi eu cefn ar fannau poblogaidd gorfasnachol i ymwelwyr. Mae ganddynt feddwl annibynnol, ni fyddant yn dilyn y dorf. Maent yn hoffi ymwneud â lle, cyfarfod â'r bobl leol a deall y diwylliant lleol, gan ddychwelyd adref wedi'u bywiogi a'u cyfoethogi. Mae cynllunio a threfnu gwyliau yn cynnig boddhad a theimlad o gyflawniad iddynt. Maent yn hoffi ymweld â mannau nad oes llawer o ymwelwyr eraill yn gwybod amdanynt. Gellir rhannu'r grŵp hwn yn bedwar:

1. Parau hŷn sy'n fforwyr diwylliannol.
2. Parau sy'n chwilio am olygfeydd.
3. Teuluoedd sy'n fforwyr egniol.
4. Fforwyr sydd heb ddechrau magu teulu.



# 3

## Heriau, Cyfleoedd a Gwelliannau

### 3.1 Yr Heriau i Sir Gaerfyrddin o ran Twristiaeth

Er bod twristiaeth yn tyfu yn genedlaethol (yn y DU) ac yn fyd-eang felly hefyd y mae'r gystadleuaeth a bydd angen i Sir Gaerfyrddin wella'i sefyllfa gystadleuol er mwyn tynnu sylw ati'i hun mewn marchnad orlawn a denu mwy o ymwelwyr. Mae integreiddio'r gwaith o farchnata Sir Gaerfyrddin i ymwelwyr

blaenorol a rhai newydd gan wneud gwelliannau o dipyn i beth i ansawdd cyffredinol ac amrywiaeth y profiad canol tref yn ddull synhwyrol a chost effeithiol. Mae dadansoddiad rhagarweiniol o'r hyn sydd ar gael i dwristiaid yn Sir Gaerfyrddin (gan ddefnyddio dadansoddiad o gryfderau,

gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) yn awgrymu, fel yn y rhan fwyaf o ardaloedd sy'n gyrchfannau, fod nifer o heriau y mae angen eu goresgyn er mwyn cynyddu nifer y twristiaid a'u gwariant. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod ac nid ydynt mewn unrhyw drefn benodol:

- Nid oes gan Sir Gaerfyrddin hunaniaeth yn seiliedig ar frand sydd wedi'i diffinio'n glir ac mae'r addewid i dwristiaid yn niwlog.
- Nid oes ystod resymol o gyfleusterau tywydd gwlyb a chyfleusterau adloniant.
- Diffyg atyniadau i dwristiaid a 'rhesymau cymhellol i ymweld â'r Sir'.
- Diffyg cyrchfannau yn Sir Gaerfyrddin sy'n eiconau sefydledig ac sy'n taro tant y tu hwnt i'w ffiniau.
- Nid oes dull cydgysylltiedig yn Sir Gaerfyrddin o ran dehongli ei threftadaeth a'i hasedau diwylliannol.
- Diffyg dull cydgysylltiedig o ran y farchnad awyr agored.
- Nid oes strategaeth glir ynghylch arwyddion ffordd i berswadio mwy o ddefnyddwyr ceir i ymweld â'r Sir yn hytrach na mynd heibio iddi.
- Cystadleuaeth gynyddol o gyrchfannau eraill.

### 3.2 Y Cyfleoedd i Sir Gaerfyrddin o ran Twristiaeth

Er bod yr heriau yn rhai gwirioneddol, gellir eu goresgyn os gwneir ymdrech barhaus ac integredig gan y rheiny a effeithir gan dwristiaeth. Rhestrir isod agweddau mwy cadarnhaol ar y cyfleoedd sydd i dyfu twristiaeth mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol ac nid ydynt mewn unrhyw drefn benodol:

- Mae'r Sir yn borth i Orllewin Cymru ac mae ganddi botensial fel canolfan dwristiaeth i Dde-orllewin Cymru.
- Amrywiaeth da o ddarparwyr llety o safon.
- Mynediad at farchnad fawr o dwristiaid sy'n teithio a marchnad gymharol fawr a sefydlog o dwristiaid sydd ar wyliau.
- Mae Sir Gaerfyrddin yn estyn croeso cynnes a diffuant i ymwelwyr - mae gofal cwsmeriaid yn nodwedd gadarnhaol.
- Mae gan Sir Gaerfyrddin amrywiaeth da o gyfleusterau siopa arbenigol a chyffredinol.
- Mae modd cyrraedd Sir Gaerfyrddin yn hwylus ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd o ardal eang.
- Canol trefi sy'n gymharol lân ac sy'n dderbyniol o ran bod yn rhydd o sbwriel.
- Mae gan Sir Gaerfyrddin nifer o gyrchfannau sy'n eiconau ac sy'n cynnig potensial i fanteisio arnynt ymhellach.
- Profiadau cryf a dilys o ran treftadaeth a diwylliant, gan gynnwys y Gymraeg - sy'n cynnig cyfleoedd i hyrwyddo ac esbonio nodweddion unigryw yr ardal mewn modd blaengar a chreadigol.
- Mae gan y sir nifer o nodweddion unigryw, gan gynnwys trefi marchnad hanesyddol, nodweddion arobryn ar yr arfordir, cefn gwlad amrywiol sy'n cwmpasu dyffrynnoedd, mynyddoedd ac afonydd.
- Mae gan Sir Gaerfyrddin botensial i ddatblygu ei rhaglen bresennol o ddigwyddiadau a gwyliau sy'n dangos ei chymeriad a'i phersonoliaeth neilltuol.
- Mae gan y sir berthynas gadarnhaol â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a gall fanteisio ar statws y Parc fel cyrchfan eiconig.





### 3.3 Gwella Profiadau Ymwelwyr


Casgliad o atgofion yw unrhyw ymweliad twristiaeth. Y lleoedd ble rydych wedi aros, y lleoedd rydych wedi ymweld â nhw, y pethau rydych wedi'u gwneud, y bwyd rydych wedi'i fwyta, y bobl rydych wedi cwrdd â nhw. Yr amrywiaeth hwn o brofiadau ymwelwyr – casgliad o nifer o gynnyrch a gwasanaethau – yw cryfder mwyaf twristiaeth ond hefyd, o bosibl, ei gwendid mwyaf, oherwydd nad oes gan un person neu sefydliad

reolaeth dros bob elfen unigol o'r profiad twristiaeth.

Mae 'mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau ein hymwelwyr' yn ddatganiad o fwriad a ddefnyddir yn gyffredin ym maes twristiaeth fel uchelgais allweddol neu fesur o lwyddiant. Ond nid yw cyflawni uchelgais o'r fath yn syml na'n hawdd. Mae'n gofyn ymrwymiad ar y cyd o fewn y gymuned dwristiaeth i gynnig ansawdd, gwerth am

arian ac i greu atgofion da i'n hymwelwyr yn ddyddiol. Os na wneir hynny, gallai fod goblygiadau difrifol a dros amser gallai olygu bod y cyrchfan yn colli ei fantais gystadleuol. Nod y CRhC hwn yw sicrhau bod y profiad hwnnw'n cael ei wella mewn modd cydgysylltiedig, sy'n hoelio'r sylw a bod yr holl chwaraewyr allweddol yn rhannu'r un deilliannau ac yn ymrwymo iddynt.





## 4

## Gweledigaeth ac Uchelgais

**Gweledigaeth**

Mae angen i unrhyw gynllun sy'n ceisio sicrhau twf yn y dyfodol o ran niferoedd a gwariant twristiaid oresgyn yr heriau (Gwendidau a Bygythiadau) sy'n wynebu Sir Gaerfyrddin, tra'n manteisio ar y cyfleoedd (Cryfderau a Chyfleoedd) sy'n bodoli, er mwyn gwella'r profiad

twristiaeth cyffredinol. Byddai dadansoddiad ar y lefel uchaf sy'n cymharu'r heriau a'r cyfleoedd yn dangos bod yr elfennau cadarnhaol yn llawer mwy na'r elfennau negyddol; nid oes unrhyw heriau anorchfygol ac mae set gystadleuol o gyfleoedd sy'n cynnig potensial

ardderchog ar gyfer twf pellach mewn twristiaeth. Mae'r weledigaeth ar gyfer twristiaeth yn Sir Gaerfyrddin yn helpu i ddiffinio uchelgeisiau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a fydd yn cyfrannu'n fawr at dwf mewn twristiaeth yn y dyfodol.



Datblygu economi ymwelwyr ffyniannus yn Sir Gaerfyrddin yn seiliedig ar ei chryfderau a'i chymeriad unigryw, sy'n cynhyrchu mwy o wariant ac incwm lleol, yn gwella ei delwedd a'i henw da ac yn gwella ansawdd bywyd i gymunedau lleol.



## Uchelgeisiau

Y canlynol yw **uchelgeisiau** Sir Gaerfyrddin sy'n cyfannu'r weledigaeth:

- Bod yn gyrchfan cenedlaethol o bwys yng Nghymru, gan ddarparu amrywiaeth o lety o ansawdd da, lleoedd i ymweld â nhw a phethau i'w gwneud.
- Bod yn ganolbwynt ac yn ganolfan dwristiaeth bwysig ar gyfer archwilio amgylchedd ehangach De-orllewin Cymru.
- Bod yn lle sydd â delwedd a hunaniaeth neilltuol sy'n ystyrion i drigolion ac ymwelwyr.
- Bod yn gyrchfan diogel sy'n ymfalchio yn ei le mewn hanes ac sydd eisiau adrodd ei stori wrth eraill.
- Bod yn lle sy'n estyn croeso cynnes i ymwelwyr ac sy'n parchu eu hanghenion unigol.
- Bod yn lle y mae pobl eisiau ymweld ag ef, byw, gweithio, cynnal eu busnes a chael eu haddysg.
- Bod yn adnabyddus am ei chysylltiadau emosiynol a gweithredol cryf â gweddill De-orllewin Cymru, ynghyd â'i chysylltiadau cryf â'r gadwyn gyflenwi leol sy'n cefnogi cadw referniw twristiaeth o fewn y Sir.
- Bod yn adnabyddus fel lle sy'n greadigol, yn gyfoes ac yn llawn cymeriad.



# 5 Blaenoriaethau

Drwy nodi'r blaenoriaethau ar gyfer Sir Gaerfyrddin, gall rhanddeiliaid allweddol ddod i gytundeb ynghylch y ffocws ar gyfer adnoddau a chyfrifoldebau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau twf mewn twristiaeth. Maent wedi'u hamlinellu isod ac wedi'u cysylltu â'r pum maes ffocws allweddol a nodir yn y ddogfen 'Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013-2020, Partneriaeth ar gyfer Twf'. Rhestrir yr amcanion a ddatblygwyd gan aelodau'r Bartneriaeth yn 2014. Clustnodwyd nifer o elfennau/themâu trawsbynciol a ddylai fod yn sylfaen i gyflawni'r holl flaenoriaethau.

- Nwyddau a gwasanaethau arloesol.
- Cynigion o ansawdd uchel i ymwelwyr.
- Nodweddion unigryw lleol a phrofiadau dilys.
- Partneriaeth a chydweithio.
- Marchnata a chyfathrebu.
- Datblygu busnes a sgiliau.
- Rhoi sylw i'r tymhorau.
- Cynaliadwyedd/Sensitifrwydd Amgylcheddol .
- Data cyfredol a manwl-gywir ynghylch twristiaeth.

## Priority 1: Hyrwyddo'r Brand

- Datblygu safle a hunaniaeth brand neilltuol ar gyfer Sir Gaerfyrddin a chytuno arnynt.
- Hyrwyddo a marchnata neges glir ynghylch yr hyn y mae Sir Gaerfyrddin yn ei gynnig i ymwelwyr gan dargedu marchnadoedd presennol a newydd sy'n cynnig y cyfleoedd mwyaf i dyfu economi ymwelwyr y Sir.
- Bod â dull partneriaeth o ran hyrwyddo er mwyn sicrhau bod y sianeli allweddol (gwefannau, llyfrynau, apiau, hysbysebion ac ati) yn gyson â'r brand, yn amserol, yn effeithiol, yn atgyfnerthu'r un negeseuon a sicrhau bod busnesau twristiaeth yn gwneud defnydd llawn o'r dechnoleg sydd ar gael.
- Cynllunio i ddefnyddio safle'r cyrchfan yn yr holl weithgarwch hyrwyddo a gweithgarwch mewn llecynnau cyhoeddus i atgyfnerthu'r neges.
- Ymchwilio i ymwelwyr ac i'r farchnad; mae angen i ni wybod pwy yw ein cwsmeriaid a'n cynulleidfa darged a beth yw eu barn, er mwyn gallu diwallu disgwyliadau ymwelwyr a datblygu brand a negeseuon marchnata priodol.

## Priority 2: Datblygu Cynnyrch

- Gwella ansawdd ac ystod y ddarpariaeth o ran llety yn unol â'r galw a ragwelir ac ymateb i gyfleoedd newydd i apelio i farchnadoedd eang ac amrywiol.
- Dylanwadu, hwyluso a denu o leiaf un atyniad neu gyfleuster pob tywydd, mawr, newydd, eiconig, o bwys cenedlaethol, ac addas i deuluoedd, i'r sir.
- Cefnogi ac annog atyniadau a gweithgareddau presennol i fuddsoddi, helaethu a gwella'u cynigion a'r profiadau a gynigant i ymwelwyr, cryfhau eu proffil a'u hapêl, gan ddenu rhagor o ymwelwyr i aros yn Sir Gaerfyrddin drwy gydol y flwyddyn.
- Meithrin enw da'r sir fel cyrchfan o safon ym maes bwyd a diod a manteisio i'r eithaf arno - gan annog busnesau croesawgarwch i ddefnyddio cynnyrch lleol.
- Cynyddu nifer, ystod ac ansawdd y digwyddiadau sydd â'r potensial i ddenu ymwelwyr i Sir Gaerfyrddin. Hwyluso cydweithio, cydgysylltu a chyfathrebu rhwng trefnwyr digwyddiadau sirol a rhanbarthol - ynghyd â'r diwydiant ehangach - er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae digwyddiadau a gwyliau yn eu cynnig.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer Gweithgareddau Awyr Agored yn Sir Gaerfyrddin .
- Cytuno ar gyfleoedd a chryfderau'r hyn a gynigir i ymwelwyr yn Sir Gaerfyrddin gan ganolbwyntio ar y themâu allweddol sy'n flaenoriaeth, defnyddio'r ymchwil a wnaed gan bartneriaid a rhanddeiliaid a chynnal ymchwiliadau ychwanegol os bydd angen.



### Priority 3: Datblygu Pobl

- Meithrin a chefnogi arloesedd ac entrepreneuriaeth yn y diwydiant.
- Datblygu a gwella'r cydweithio a'r cyfathrebu ymysg busnesau twristiaeth a chydag unigolion, grwpiau a busnesau eraill sy'n ymwneud ag economi ymwelwyr y Sir.
- Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol, i nodi'r sgiliau y mae galw amdanynt yn y sir a pharhau i ddatblygu a chynnig rhaglen o hyfforddiant a chyfleoedd datblygu busnes sy'n diwallu anghenion y diwydiant ac yn ei helpu i gyfrannu'n effeithiol o ran cyflawni'r cynlluniau a'r strategaethau perthnasol.



### Priority 4: Perfformiad Proffidiol

- Cytuno ar gynllun systematig a'i roi ar waith er mwyn cofnodi gwybodaeth ynghylch twristiaeth yn fanwl-gywir a'i defnyddio'n effeithiol i ddatblygu twristiaeth. Canolbwyntio ar y canlynol:
  - Bodlonrwydd ymwelwyr, profiadau ymwelwyr a thueddiadau.
  - Perfformiad a hyder busnesau.
  - Yr effaith ar yr economi ymwelwyr.
- Datblygu dangosyddion perfformiad realistig i fonitro cynnydd y sector.
- Annog busnesau twristiaeth Sir Gaerfyrddin i fod yn fwy cystadleuol a phroffidiol .
- Annog a hwyluso gwelliannau o ran y ddarpariaeth ffonau symudol a band eang yn y sir a chefnogi ymdrechion y diwydiant i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r cyfryngau digidol yn eu cynnig.
- Sicrhau bod y seilwaith trafniadaeth gyhoeddus a phreifat wedi'i gynllunio'n dda a bod gwybodaeth glir ar gael i ymwelwyr.
- Annog a chefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol busnesau twristiaeth.

### Priority 5: Adeiladu Lle

- Canolbwyntio ar fannau daearyddol allweddol, gan ddefnyddio'r ymchwil a wnaed gan bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Lle bo'r angen a thrwy ymchwil ychwanegol, gwella ansawdd, golwg a chynigion unigryw y cymunedau/ardaloedd gwledig allweddol yn Sir Gaerfyrddin y gwelwyd eu bod yn cynnig y potensial mwyaf o ran datblygiad ac apêl i ymwelwyr.
- Pennu a hyrwyddo manau ffocws allweddol sydd â chymeriad arbennig ar lefel y sir gyfan ac mewn trefi a phentrefi .
- Creu arwyddion unigryw a chymhellol, gan ganolbwyntio ar y canlynol:
  - buddsoddi yn y seilwaith trafniadaeth er mwyn gwella arwyddion ffyrdd i gyrchfannau yn arbennig
  - nodweddion porth a manau ffocws i annog llif ymwelwyr fwy effeithiol a gwahaniaethu rhwng gwahanol rannau o'r sir yn ôl eu cymeriad a'u cynigion unigryw i ymwelwyr.
- Rhoi cyfleoedd i gymunedau lleol fod yn rhan o ddarparu profiadau dilys, cofiadwy, o ansawdd uchel i ymwelwyr.
- Dod â stori Sir Gaerfyrddin yn fyw trwy annog a chefnogi esboniadau eang, creadigol ac arloesol o'i hanes, ei threftadaeth a'i diwylliant, gan roi sylw i gryfder y diwylliant lleol.
- Dyfnhau'r ymdeimlad o le drwy wella dolenni'r gadwyn gyflenwi rhwng cynhyrchwyr nwyddau a gwasanaethau a'r defnyddwyr.
- Cael hyd i ddulliau o ledaenu buddion twristiaeth yn ehangach yn yr economi ymwelwyr leol.
- Cefnogi a manteisio ar botensial y digwyddiadau hyn a arweinir gan gymunedau sy'n gallu ychwanegu at brofiadau ymwelwyr a hyrwyddo ymdeimlad o le yn yr ardal.





## 6

# Partneriaeth ar gyfer Twf

Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn hanfodol i reoli a chyflwyno'r cyrchfan mewn ffordd integredig ac i sicrhau yr ystyrir ac y cynllunnir ar gyfer ymwelwyr yng nghamau cyntaf unrhyw ddatblygiad newydd. Gallai hyn olygu newidiadau i'r ffyrdd traddodiadol o weithio er mwyn gwella tryloywder penderfyniadau, meddwl eang ac ymgysylltu gweithredol rhwng partneriaid yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Os ydym am gyflawni'r Cynllun

Rheoli Cyrchfannau hwn yn effeithiol, mae angen sefydlu clymblaid o randdeiliaid sydd wedi ymrwymo i wella safle cystadleuol Sir Gaerfyrddin. Mae undod o ran diben, drwy waith partneriaeth gweithredol, yn allweddol i sicrhau bod y Cynllun Rheoli Cyrchfannau yn cael ei weithredu yn unol â'r amserlen a'r gyllideb. Nid oes un model ar gyfer partneriaeth sy'n berthnasol i bob cyrchfan. Mae gan bob cyrchfan gymeriad arbennig, ei ffyrdd ei hun o weithio a chymuned unigryw o bobl a effeithir gan dwristiaeth. Er

mwyn i bartneriaeth cyrchfan weithio, mae'n rhaid iddi adlewyrchu natur unigol y cyrchfan y mae'n ei gynrychioli. Yn syml, mae'n rhaid iddi fod yn addas i'r diben.

Bydd Partneriaeth Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin yn gweithio mewn partneriaeth â Dinas-ranbarth Bae Abertawe gan roi sylw i 'golofnau' ei gynllun cyflawni a sicrhau bod cysylltiad agos rhwng camau gweithredu ac adnoddau er mwyn osgoi dyblygu gwaith a chael y canlyniadau gorau posibl.



Grŵp Llywio Partneriaeth Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin fydd y canolbwynt o ran arwain a rheoli a bydd yn mabwysiadu dull newydd o weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau gwell cysylltiadau rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin, y sectorau manwerthu, croesawgarwch a thwristiaeth a buddiannau cymunedol allweddol. Bydd y

Grŵp hwn yn hoelio'r sylw ar gyfathrebu clir, meithrin galluedd a chydgyssylltu cynlluniau ac adnoddau. Bydd yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau a'u hadolygu; pennu targedau a chynllunio gweithgareddau; monitro perfformiad; chwilio am gyllid a'i ddyrannu, er mwyn cefnogi gweithrediad effeithiol y Cynllun

Gweithredu Cyrchfannau. Bydd y Bartneriaeth yn trefnu cyfarfodydd i drafod materion twristiaeth ac i ledaenu gwybodaeth ynghylch y broses, y cyflawniadau a'r dyheadau o ran rheoli cyrchfannau.

Ar hyn o bryd, mae'r cyrff canlynol yn rhan o Grŵp Llywio'r Bartneriaeth:

- CDP Chair.
- Cadeirydd Partneriaeth Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin.
- Cyngor Sir Caerfyrddin.
- Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr.
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Coleg Sir Gâr/Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
- Cynrychiolydd Rhanbarthol Croeso Cymru.



Mae Partneriaeth Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y sefydliadau hynny sy'n chwarae rhan allweddol o ran diwydiant twristiaeth ac economi ymwelwyr ein sir. Nod y grŵp anffurfiol hwn yw hybu datblygiad cynaliadwy Sir Gaerfyrddin drwy gydweithio i lunio gweithgareddau a phrosiectau ar gyfer y cyrchfannau a chymryd rhan ynddynt. Mae'r rhanddeiliaid allweddol hyn wedi eu nodi isod ond nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr gan y gallai rhai eraill ddod yn gysylltiedig â'r grŵp wrth i'r Cynllun Gweithredu ddatblygu dros amser.

• **Cadeirydd Partneriaeth**

**Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin**

• **Cyngor Sir Caerfyrddin**

• **Cymdeithasau Twristiaeth**

**Cyrchfannau:**

- Twristiaeth Bannau Brycheiniog.
- Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr.

• **Awdurdod Parc Cenedlaethol**

**Bannau Brycheiniog**

• **Croeso Cymru / Llywodraeth Cymru**

• **Clystyrau/Cymdeithasau**

**Twristiaeth Lleol:**

- Fforwm Adfywio Rhydaman.
- Cymdeithas Gweithredwyr Tai Byncau.
- Cymdeithas Clystyrau Twristiaeth Fforest Brechfa a Mynydd Llanllwni (BALM).
- Fforwm Adfywio Caerfyrddin.
- Grŵp Gwyliau Fferm a Chefn Gwlad Sir Gâr.
- Clystyrau Rhanbarthol Twristiaeth Wledig Sir Gâr.
- Fforwm Busnes a Thwristiaeth Cydweli.
- Siambr Fasnach Talacharn.

- Fforwm Busnes Llandeilo.

- Fforwm Marchnata Llandeilo.

- Siambr a Phartneriaeth

- Llanymddyfri.

- Cymdeithas Twristiaeth

- Llansteffan.

- Grŵp Masnach Deg Castellnewydd Emlyn.

- Grŵp Darparwyr Gweithgareddau

- Awyr Agored De Cymru.

- Cymdeithas Twristiaeth Dyffryn

- Teifi.

- Croeso Dyffryn Teifi.

- Cyd-weithgor Gorllewin Sir Gâr.

• **Grwpiau'r Cynllun Datblygu**

**Gwledig :**

- Grwp Cefn Gwlad.

• **Rhanddeiliaid Allweddol:**

- BHS (Cymdeithas Ceffylau

- Prydain) Cymru.

- Cymdeithas Parciau Gwyliau a

- Pharciau Cartrefi Prydain

- (BH&HPA).

- CADW.

- Menter Mynyddoedd Cambria.

- Coleg Sir Gâr.

- Cymdeithas Tir a Busnesau

- Cefn Gwlad (CLBA).

- Dŵr Cymru Welsh Water.

- Ymddiriedolaeth Archaeolegol

- Dyfed.

- Undeb Amaethwyr Cymru /

- NFU (Undeb Cenedlaethol yr

- Amaethwyr) Cymru.

- Fforwm Rheilffordd Calon

- Cymru.

- Cerddwyr Llanelli, Caerfyrddin,

- Dinefwr.

- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

- Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Un Llais Cymru (yn cynrychioli

- Cynghorau Cymuned).

- Sustrans Cymru.

- Cynrychiolydd Dinas-ranbarth

- Bae Abertawe.

- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi

- Sant.

- Croeso i Gerddwyr - Llandysul,

- Llandeilo, Llanymddyfri.

- Cymdeithas Gweithredwyr

- Hunan-ddarpar Cymru.

- Cymdeithas Atyniadau

- Ymwelwyr Cymru.

- Cymdeithas Hosteli Ieuencid.



Byddwn yn cyfathrebu â chyrchfannau cyfagos ac yn cysylltu â nhw er mwyn gweithio ar draws ffiniau trwy'r Cymdeithasau Twristiaeth, Awdurdodau Lleol neu gynrychiolwyr y canlynol:

- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Ceredigion.
- Castell-nedd Port Talbot.
- Sir Benfro.
- Powys.
- Abertawe.

Bellach mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gyrchfan cydnabyddedig yng Nghymru ac mae rhan sylweddol o'r parc yn Sir Gaerfyrddin. Mae Partneriaeth wahanol (sef Partneriaeth Cyrchfannau Cynaliadwy Bannau Brycheiniog, BBSDP) yn ardal Bannau Brycheiniog ac y mae Cyngor Sir Caerfyrddin a Chymdeithas Twristiaeth Sir Gâr yn rhan ohoni. Yn yr un modd

mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn aelod o Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin ac yn cynrychioli BBSDP. Mae'r holl bartion wedi cytuno i weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer y ddau gyrchfan. Bydd rhoi sylw i'r brand, marchnata a chyfathrebu rhwng sefydliadau yn arbennig o bwysig er mwyn osgoi drysu

rhanddeiliaid a dyblygu gwaith. Fodd bynnag cydnabyddir y bydd cynnyrch yn y naill ardal yn berthnasol i'r llall ac felly bydd cydweithio yn cynnig budd i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith. Mae Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr a Thwristiaeth Bannau Brycheiniog yn cydweithio a dylid annog a hwyluso'r gwaith hwn. Anogir cysylltiadau tebyg â Chyrchfannau eraill.



## 7 Rheoli Perfformiad

Bydd yn bwysig mesur pa mor dda y mae'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ynghylch Cyrchfannau yn arwain at ganlyniadau llwyddiannus i Sir Gaerfyrddin. Bydd llwyddiant yn cael ei fesur drwy gyflawni cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol:

- Mwy o wariant gan ymwelwyr a chynhyrchu mwy o incwm lleol.
- Mwy o swyddi a gwell swyddi.
- Gwell perfformiad busnes.
- Enw mwy cadarnhaol ac

ymwybyddiaeth o Sir Gaerfyrddin fel cyrchfan deniadol i ymwelwyr.

- Lefelau uwch o fodlonrwydd ymwelwyr ac argymell Sir Gaerfyrddin yn lle i ymweld ag ef.
- Tymor twristiaeth hwy

Rhoddir rhaglen ymchwil yn ei lle er mwyn sicrhau y cynhelir arolygon priodol i fesur perfformiad o ran tueddiadau. Bydd STEAM, sef y model

presennol ar gyfer effaith economaidd, yn rhoi rhai mesuriadau craidd ond bydd astudiaethau ychwanegol ynghylch y sectorau trigolion (panel dros 50, panel dinasyddion), ymwelwyr (wyneb yn wyneb ac ar-lein) a busnes yn cael eu cynnal er mwyn mesur newidiadau o ran bodlonrwydd ymwelwyr, perfformiad busnes ac enw da'r Sir a lefelau ymwybyddiaeth.



## 8

# Dolenni Cyswllt Grŵp Llywio Partneriaeth Cyrchfannau Sir Gaerfyrddin

I gyflawni nodau'r cynllun hwn bydd y partneriaid yn darparu elfennau fel sy'n briodol i'w cylch gorchwyl. Mae dolenni cyswllt Grŵp Llywio'r Partneriaeth fel a ganlyn:

Awdurdod Parc Cenedlaethol

Bannau Brycheiniog

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr

Coleg Sir Gar /

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Croeso Cymru

**richard.tyler@beacons-npa.gov.uk**

**marketing@sirgar.gov.uk**

**info@visitcarmarthenshire.co.uk**

**caroline.peek@colegsirgar.ac.uk**

**philip.abraham@wales.gsi.gov.uk**

**01874 620405**

**01554 744326**

**01269 598140**

**01554 748000**

**0300 790 4528**

## 9

# Atodiadau

## Atodiad 1: Cyd-destun Polisiau Rhanbarthol - Strategaeth Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe

Ystyr Dinas-ranbarth yw dinas graidd, cytref neu rwydwaith o gymunedau trefol sy'n rhannu adnoddau megis ardal fusnes ganolog, marchnad lafur a rhwydwaith trafndiaeth. Mewn geiriau eraill dinas-ranbarth yw'r man lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywyd. Mae pobl yn gweithio, yn masnachu, yn siopa, yn bwyta ac yn treulio'u hamser hamdden yno. Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cwmpasu ardaloedd Awdurdodau Lleol Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae Dinas-ranbarthau yn cynnig ymagwedd newydd tuag at adfywio economaidd:

- Marchnadoedd llafur mwy a mwy effeithlon ac felly gwell rhagolygon o ran creu swyddi;
- Cyfle i greu gwell cynlluniau o

ran tai, trafndiaeth, cymorth ar gyfer busnesau a gwasanaethau eraill y tu hwnt i ffiniau gweinyddol presennol;

- Gwella'r rhagolygon o ran denu buddsoddiad, arloesedd a gweithgarwch economaidd sy'n cynnig gwerth ychwanegol.

Yn Ne-orllewin Cymru, bu'r twf mewn Gwerth Ychwanegol Gros (sef y dangosydd pennaf a ddefnyddir i fesur perfformiad cyffredinol yr economi) dros y ddau ddegawd diwethaf yn gyson is na'r hyn a gafwyd yn y DU ac yng Nghymru. Yn 2010 roedd yn 77% o ffigur cyfartalog y DU a 94% yn unig o lefel Cymru.

### Twf Busnesau, Cadw Busnesau ac Arbenigo

Nodau:

- Datblygu diwylliant mwy

entrepreneuraidd yn y rhanbarth;

- Annog marchnad mwy deinamig a chynaliadwy o ran cychwyn busnesau;
- Darparu cyngor a chymorth wedi'i deilwra er mwyn cadw busnesau a thyfu busnesau;
- Cynnig gwell cymorth i gyflogwyr mawr yn y rhanbarth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat;
- Datblygu mewnfuddsoddi o'r add flaenaf.

### Gweithlu medrus ac uchelgeisiol ar gyfer llwyddiant tymor hir

Nodau:

- Gwella cyrhaeddiad ac uchelgais yn yr ysgolion sydd â'r perfformiad isaf;
- Sicrhau bod y ddarpariaeth addysg bellach ac addysg uwch yn cyd-fynd ag anghenion y

- sectorau sy'n tyfu;
- Targeddu unigolion sy'n gweithio a hyrwyddo ymwybyddiaeth o wella sgiliau, dilyniant a chyfleoedd hyfforddiant;
  - Newid y diwylliant a helpu pobl i fod yn fwy uchelgeisiol o ran eu dyfodol.

### Creu cynifer o swyddi â phosibl i bawb

Nodau:

- Cynorthwyo pobl i ddychwelyd i'r gwaith trwy gyfrwng ystod o raglenni cymorth a dargedir;
- Cynyddu nifer y busnesau newydd gan gynnwys mentrau cymdeithasol;
- Cynyddu cyfleoedd i gael gwaith drwy gefnogi twf cyflogaeth ym musnesau'r rhanbarth;

- Gwella cyfleoedd i'n plant a'n pobl ifanc.

### Yr Economi Wybodaeth ac Arloesedd

Nodau:

- Datblygu strategaeth arloesedd gydlynol a hir dymor sy'n cyd-fynd â meddylfryd yr Undeb Ewropeaidd;
- Manteisio i'r eithaf ar botensial hir dymor Campws; Gwyddoniaeth ac Arloesedd newydd Prifysgol Abertawe;
- Mynd ati'n strategol i feithrin busnesau newydd trwy gyfrwng arloesedd a meithrin busnes;
- Integreiddio ein hasedau ymchwil a datblygu a'u cydgysylltu yn well yn y rhanbarth;

- Creu cysylltiadau a phartneriaethau rhyngwladol cryf.

### Lleoedd Nodedig a fframweithiau cystadleuol

Nodau:

- Creu negeseuon cydlynol i fuddsoddwyr ac i ymwelwyr;
- Datblygu cynlluniau gofodol effeithiol, strategol a hir dymor ar gyfer twf;
- Mynd i'r afael â materion trafndiaeth strategol er mwyn datgloi twf hir dymor;
- Datblygu darpariaeth gystadleuol o ran band eang y genhedlaeth nesaf a 4G.

## Atodiad 2: Cyd-destun Polisiâu Lleol

### 1 Strategaeth Gymunedol Integredig i Sir Gaerfyrddin 2011-2016

Mae'r strategaeth hon yn cynnig gweledigaeth ynghylch sut y bydd Sir Gaerfyrddin yn edrych yn y dyfodol a sut y gellid gwireddu'r weledigaeth honno. Y canlynol yw'r weledigaeth: *Sir Gaerfyrddin sy'n galluogi pobl i fyw bywydau iach a chyflawn trwy gydweithio i adeiladu cymunedau cryf, dwyieithog a chynaliadwy.*

Mae cynnydd yn cael ei adolygu bob chwe mis a bydd yr holl bartneriaid yn atebol am eu canlyniadau a'u nodau. Mae'r strategaeth ar gael yn hwylus i bawb ac mae fersiwn i bobl ifanc a fersiwn i blant ar gael. Mae'r strategaeth newydd, sy'n rhedeg o 2011 i 2016, wedi'i datblygu drwy ymgynghori â chymunedau a sefydliadau lleol a grwpiau eraill. Mae'r Strategaeth Gymunedol yn cynnwys pum canlyniad blaenoriaethol.

1. Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach.
2. Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin

yn cyflawni eu potensial o ran dysgu.

3. Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel.
4. Mae cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy.
5. Mae gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus.

### 2 Cynllun Corfforaethol y Cyngor Sir (2014-2017) ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn manylu ynghylch sut y mae'r Cyngor yn bwriadu helpu i gyflawni ei gamau gweithredu yn y Strategaeth Gymunedol drosfwaol (gweler uchod), ac mae'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd (Gorffennaf 2014). Mae adfywio yn un canlyniad blaenoriaethol o'r fath, ac mae'r amcanion yn ymwneud â phrosiectau amrywiol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Gweithredu hwn ynghylch Cyrchfannau.

### 3 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2014-2029

Bydd Cynllun Datblygu Unedol Sir Gaerfyrddin a fabwysiadwyd yn 2006 yn cael ei ddisodli'n fuan gan Gynllun Datblygu Lleol newydd i Sir Gaerfyrddin. Bu'n destun craffu drwy Ymchwiliad Cyhoeddus a disgwylir i'r arolygydd penodedig gyhoeddi ei argymhellion ym mis Medi 2014. Wedi hynny, mae amserlen fras ar gyfer ei dderbyn a'i fabwysiadu.

Bydd y CDLI yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin hyd at 2026. Mae'n ddogfen bolisi hynod bwysig a fydd yn llywio twf ac yn nodi'r anghenion o ran seilwaith yn y Sir dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn cynnwys polisiâu ynghylch rheoli twf a datblygiad, ac mae'n cynnwys dyraniadau defnydd tir penodol a pholisiâu gofodol. Hefyd, mae'r Cynllun yn cynnwys polisiâu sy'n seiliedig ar feini prawf ac sy'n ceisio darparu cyfleusterau newydd neu well ar gyfer twristiaeth a hamdden yn Sir Gaerfyrddin.

#### **4 Cynllun Datblygu Gwledig Sir Gaerfyrddin**

Buddsoddwyd sawl miliwn o bunnoedd yn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin yn sgil y Cynllun Datblygu Gwledig presennol ar gyfer 2007-2013, gan gynnwys asedau a chynnyrch twristiaeth. Bydd y Cynllun Rheoli Cyrchfannau yn rhan hanfodol o'r strategaeth ddatblygu leol ar gyfer y cylch nesaf o gyllid drwy'r CDG yn Sir Gaerfyrddin, ac mae'n cynnwys blaenoriaethau allweddol fel yr arfordir, gwersylla, bwyd lleol, gweithgareddau awyr agored ac ymestyn y tymor ymwelwyr traddodiadol.

#### **5 Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2010-2015**

Cynllun partneriaeth rhwng yr holl randdeiliaid yw hwn sy'n nodi sut y dylai'r Parc gael ei reoli yn y dyfodol o safbwynt amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n sylweddol o ran cyflawni'r Cynllun ac mae'n cefnogi dynodiad y Parc Cenedlaethol.

#### **6 Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2012-2017**

Mae'r strategaeth hon sy'n cael ei goruchwyllo gan Bartneriaeth Cyrchfannau Cynaliadwy Bannau Brycheiniog, yn llywio gwaith twristiaeth gan bartneriaid yn y Parc Cenedlaethol a'r cyffiniau. Mae'n cynnwys 6 amcan strategol:

##### **MARCHNATA EFFEITHIOL**

Cynyddu ymwybyddiaeth o Fannau Brycheiniog fel cyrchfan blaenllaw sy'n cynnig profiadau gwledig o safon, ac yn denu ymweliadau dros nos drwy gydol y flwyddyn.

##### **CYDGYSYLLTU DEUNYDD ESBONIADOL A GWYBODAETH**

Sicrhau bod deunydd esboniadol a gwybodaeth fanwl-gywir ar gael i bob ymwelydd a bod y rhain yn cryfhau gwerthfawrogiad, mwynhad a dealltwriaeth ymwelwyr o'r Bannau, yn ennyn chwilfrydedd ac yn eu hysgogi i grwydro'r ardal, aros yno'n hirach a dychwelyd yno.

##### **CYFRIFOLDEB AMGYLCHEDDOL**

Annog a hyrwyddo ymwelwyr a rhanddeiliaid twristiaeth i

ddefnyddio'r amgylchedd yn gyfrifol, a rhoi'r modd iddynt gefnogi rheolaeth a chadwraeth Bannau Brycheiniog.

##### **AMRYWIAETH O GYNNYRCH**

Cynnig amrywiaeth eang o brofiadau i ymwelwyr yn unol â diddordebau a chyfleoedd y marchnadoedd posibl, ac yn unol â gwerthoedd brand Bannau Brycheiniog.

##### **CYMUNEDAU A LLEOEDD**

Gweithio gyda chymunedau lleol i gryfhau nodweddion unigryw y trefi, pentrefi ac ardaloedd gwledig Bannau Brycheiniog, eu hamwynderau a'u hapêl i ymwelwyr ac i drigolion lleol

##### **CEFNOGI BUSNESAU**

Annog a chynorthwyo busnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth i wella eu hansawdd a'u perfformiad, buddsoddi fel y bo hynny'n briodol a chydweithio er mwyn sicrhau bod Bannau Brycheiniog yn gyrchfan cynaliadwy a llwyddiannus ar gyfer twristiaid.